**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (129)**

# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 19 Ebrill 2005

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

**.......................................**

**2.59pm**
**Datganiad Busnes**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**.......................................**

**Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) -** ***Ni wnaed y datganiad hwn heddiw***

**.......................................**

**3.05pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth: Effaith cau MG Rover ar y gadwyn gyflenwi yng Nghymru.**

**.......................................**

**3.40pm**
**Pwyntiau o Drefn**

**Ieuan Wyn Jones: Cadeiryddion Pwyllgorau Pwnc**

**Nick Bourne: Penderfyniad Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio diweddar**

......................................

## 3.48pm

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NDM2382 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a ebostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 12 Ebrill 2005 ar Reoliadau drafft Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005, ac

2. Yn cymeradwyo Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005 yn unol â:
a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2005
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2005
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Ebrill 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

......................................

## 3.49pm

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2005**

NDM2383 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

NDM2384 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 12 Ebrill 2005 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2005, ac

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â'r Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**....................................**

## 4.01pm

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Ciniawau Ysgol (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2005**

NDM2385 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Ciniawau Ysgol (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am adolygiad o'r rheoliadau a'r canllawiau ynghylch cynnwys maethol prydau ysgol er mwyn sicrhau gofyniad maethol safonol ledled Cymru.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydweithio â Chynghorau lleol er mwyn parhau i wella ansawdd maethol prydau ysgol

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod manteision maethol ac amgylcheddol bwyd ffres ac felly mae'n galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i hyrwyddo ac annog defnyddio cynnyrch lleol ar gyfer prydau ysgol am ddim.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd Gwelliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Cymeradwywyd Gwelliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**

**Tynnwyd Gwelliant 3 i egwyddor y Gorchymyn yn ôl**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn, fel y'i diwygiwyd**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn, fel y'i diwygiwyd**

NDM2386 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 12 Ebrill 2005 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft Gorchymyn Ciniawau Ysgol (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2005, a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Ciniawau Ysgol (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2005
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**......................................**

## 4.28pm

**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar Anweithgarwch Economaidd**

**NDM2381 Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 6.6 a 9.9, yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, "Economic Inactivity in Wales", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Ebrill 2005.

*Dosbarthwyd yr adroddiad i'r holl Aelodau ar ffurf copi caled ar 11 Ebrill 2005.*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

## 5.14pm

**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 2) (Cymru) 2005: Diogelwch ar Ffyrdd Lleol**

**NDM2380 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo'r Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig Rhif 2 (Cymru 2005) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a ddosbarthwyd i Aelodau'r Cynulliad ar 12 Ebrill 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.30pm**

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher, 20 Ebrill 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 15 Ebrill 2005**

http://assembly/plenary/Plenary/Laid%2520Documents/second/docs/2005/April/ld3671-e.rtf

Report by the Equality of Opportunity Committee Disability Discrimination Bill - LD3671 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 13 Ebrill 2005**

Gorchymyn Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005 - LD3664
Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dull Mynediad, Apelau etc.) (Cymru) 2005 - LD3665
The Countryside Access (Means of Access, Appeals etc.) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3666 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2005 - LD3667

The Tir Mynydd (Wales) (Amendment) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3668 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005 - Memorandwm Cywiriadau - LD3669

Adroddiad Grant Arbennig (Cymru) 2005 ar Gronfa Datblygu Rheoli Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol - LD3670